# Y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint

Asesiad Effaith Integredig (Ymgorffori Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol) Adroddiad Interim

**Crynodeb Annhechnegol**

HYDREF 2017

Incorporating

EC HARRIS BUILT ASSET CONSULTANCY

Hyder

# CYSYLLTIADAU

**HANNE LARSSON**
**Uwch Ymgynghorydd Amgylcheddol**

Arcadis.
5ed Llawr,
401 Faraday Street
Birchwood Park
Warrington
WA3 6GA

# RHEOLI FERSIWN

| Rhifyn | Rhif Adolygiad. | Dyddiad y Cyhoeddwyd | Disgrifiad o'r Adolygiad: Rhif Tudalen. | Disgrifiad o'r Adolygiad: Sylw | Adolygwyd gan: |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | 11/09/17 | Rhifyn Cyntaf | | Hanne Larsson / David Hourd |
| 2 | 2 | 27/10/17 | Ail Rhifyn | Sylwadau cleientiaid | David Hourd |
| | | | | | |
| | | | | | |

Mae'r adroddiad hwn dyddiedig 1 Hydref 2017 wedi ei baratoi ar gyfer Cyngor Sir y Fflint (y "Cleient") yn unol ag amodau a thelerau apwyntiad dyddiedig 07 Mehefin 2017 (yr "Apwyntiad") rhwng y Cleient ac Error! Use the Home tab to apply Enw'r Cwmni to the text that you want to appear here.Arcadis (UK) Limited ("Arcadis") i'r pwrpas a nodwyd yn yr Apwyntiad. I osgoi amheuaeth ni all unrhyw unigolyn(ion) arall ddefnyddio na dibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys,

Arcadis Consulting (UK) Limited is a private limited company registered in England & Wales (registered number 02212959). Registered Office at Manning House, 22 Carlisle Place, London, SW1P 1JA, UK. Part of the Arcadis Group of Companies along with other entities in the UK.

Copyright © 2015 Arcadis. All rights reserved. arcadis.com

ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd o'r fath na dibyniaeth wedi hynny gan unrhyw drydydd parti.

# CYNNWYS

CRYNODEB ANNHECHNEGOL
Cyflwyniad
Meysydd yr Asesiad o Effaith Integredig
Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad o Gynaliadwyedd
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
Cwmpas yr Arfarniad
Materion Allweddol a Chyfleoedd yn Ymwneud â Chynaliadwyedd
Fframwaith Asesu ar gyfer yr Asesiad o Effaith Integredig
Datblygu a Mireinio Opsiynau ac Asesu'r Effeithiau:
Opsiynau Gofodol
Gweledigaeth Ofodol ac Amcanion
Arfarniad o Bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol
Y Camau Nesaf
TALFYRIADAU

Arcadis Consulting (UK) Limited is a private limited company registered in England & Wales (registered number 02212959). Registered Office at Manning House, 22 Carlisle Place, London, SW1P 1JA, UK. Part of the Arcadis Group of Companies along with other entities in the UK.

Copyright © 2015 Arcadis. All rights reserved. arcadis.com

# Crynodeb Annhechnegol

## Cyflwyniad

Fel Awdurdod Cynllunio Lleol mae gan Gyngor Sir y Fflint ddyletswydd i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) sy'n gosod ei strategaeth ar gyfer datblygu o fewn yr ardal a'r polisïau fydd yn cael eu defnyddio i gyfeirio datblygiad a phenderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio ar draws y Sir gyfan. Bydd y CDLl yn weithredol yn y cyfnod rhwng 2015 a 2030, yn darparu'r fframwaith i hwyluso cyflwyno twf a datblygiad yn gynaliadwy.

Wrth baratoi'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, mae'n ofyniad cyfreithiol i ymgymryd ag Arfarniad o Gynaliadwyedd i sicrhau y caiff ei ddatblygu o fewn egwyddorion datblygu cynaliadwy. Gellir defnyddio'r term Asesiad o Effaith Integredig i ddisgrifio'r broses o ymdrin â mwy nag un math o asesiad o effaith mewn proses unigol. Gall integreiddio mathau gwahanol o asesiadau o effaith i broses unigol wella effeithlonrwydd yn yr asesiad ei hun, gan fod nifer o faterion yr ymdrinnir â nhw mewn mathau gwahanol o asesiadau yn gorgyffwrdd, yn ogystal â symleiddio deilliannau ac argymhellion i wneuthurwyr polisi. Pan fo angen mwy o fanylion ar faterion penodol, gellir gwneud hyn a'i gynnwys o fewn yr Asesiad o Effaith Integredig. Mabwysiadwyd yr ymagwedd hon ledled Cymru, lle mae ymagwedd integredig tuag at asesu effeithiau'r strategaethau, gan ymgorffori gofynion Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), SA, Asesiad Effaith Iechyd (HIA), ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EqIA).

Mae'r Asesiad o Effaith Integredig yn dod â'r asesiadau o effaith canlynol ynghyd:

- Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb), ac
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (bydd sgrinio yn digwydd fel proses baralel, bydd y canfyddiadau'n cael eu hintegreiddio i'r Asesiad o Effaith Integredig fel yn briodol).

Mae Ymgynghorwyr Annibynnol, Arcadis Consulting (UK) Ltd, wedi ymgymryd ag Asesiad o Effaith Integredig Sir y Fflint ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Grynodeb Annhechnegol yn darparu crynodeb lefel uchel o gasgliadau'r Asesiad o Effaith Integredig.

## Meysydd yr Asesiad o Effaith Integredig

### Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses ar gyfer asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cynllun wrth iddo ddatblygu a'i fwriad yw sicrhau fod datblygu cynaliadwy yn greiddiol i'r broses o wneud cynlluniau. Mae'n ofyniad cyfreithiol o dan gyfraith cynllunio. Mae'r gyfraith yn nodi fod rhaid i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gydymffurfio gyda gofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol Ewropeaidd.

Mae canllawiau arferion da yn cynnig nifer o gamau penodedig ym mhroses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, pob un yn cysylltu gyda chamau yn y broses o lunio cynllun. Mae'n bwysig fod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gallu bwydo i mewn i'r broses o lunio cynllun. Mae hyn yn ymwneud â'r arfarniad sy'n parhau o'r cynllun ac yn gwneud argymhellion i helpu i lywio ei gyfeiriad i osgoi canlyniadau a allai fod yn niweidiol. Mae hyn yn hynod bwysig wrth ystyried opsiynau eraill o ran strategaeth. Hefyd mae angen ymgynghori gyda chyrff statudol (Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru) a'r cyhoedd ar gyfnodau allweddol.

### Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Er nad yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn asesiad statudol i gynllunwyr sy'n gweithio yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn gynyddol yn ei ystyried fel yr arfer gorau. Fe all fod yn arf defnyddiol lle disgwylir y bydd effeithiau arwyddocaol. Fel rhan o'r ymarfer o newid cwmpas, rydym wedi ystyried sut y gall pryderon ac amcanion ynglŷn ag iechyd gael eu hymgorffori o fewn y fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi ei ddiweddaru.

### Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddwch, erledigaeth;
- Cynyddu cyfle cyfartal; a
- Meithrin perthynas dda rhwng cymunedau.

O ganlyniad, rydym yn cynnal asesiad lefel uchel o'r effeithiau posibl ar gydraddoleb yn sgil y Cynllun Lleol. Mae hyn wedi ei integreiddio i broses yr Asesiad o Effaith Integredig. Fel rhan o'r ymarfer o newid cwmpas, rydym wedi ystyried sut y gall pryderon ac amcanion ynglŷn â chydraddoldeb gael eu hymgorffori o fewn y fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi ei ddiweddaru, yn enwedig yng ngoleuni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Ym Mawrth 2015, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynorthwyo i roi Cymru ar lwybr mwy cynaliadwy tuag at gyflawni llesiant. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wedi ei ddatblygu o amgylch yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Mae'n rhoi pwrpas cyffredin wedi ei rwymo'n gyfreithiol - y saith amcan llesiant ar gyfer llywodraeth genedlaethol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n nodi'r ffyrdd y dylai cyrff cyhoeddus penodol weithio, a gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant Cymru. Roedd yr ymarfer cwmpas newydd a wnaed yn Awst 2017 yn ailymweld â'r Fframwaith Asesiad o Effaith Integredig yng ngoleuni'r newid hwn yn y ddeddfwriaeth.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'n ofyniad cyfreithiol fod rhaid i unrhyw gynllun neu raglen sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd gaiff ei amddiffyn er mwyn gwarchod natur, nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol gyda rheoli'r safle i warchod natur, fod yn destun Asesiad Priodol. Cyfeirir at y broses trosfwaol fel yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae ymarfer sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi ei wneud i benderfynu a fyddent (un ai yn unigol ac/neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill) yn creu effaith niweidiol ar uniondeb y safle a ddiogelir dan gyfraith Ewrop. Bydd y broses hon yn cael ei dogfennu yn yr Adroddiad Sgrinio a gaiff ei gyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru i'w gymeradwyo. Mae hon yn broses baralel i broses yr Asesiad o Effaith Integredig ac adroddir ar hyn ar wahân.

## Cwmpas yr Arfarniad

Pennwyd cwmpas yr Asesiad o Effaith Integredig drwy gasglu gwybodaeth ar nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yr ardal. Roedd hyn yn galluogi i faterion, cyfleoedd a thueddiadau allweddol gael eu hadnabod. Hefyd gwnaed adolygiad o'r amcanion a pholisïau diogelu'r amgylchedd perthnasol eraill. Roedd yr adolygiad o'r dogfennau hyn yn canolbwyntio ar adnabod amcanion amgylcheddol a chynaliadwyedd allweddol y byddai angen eu hystyried yn yr Asesiad o Effaith Integredig a'r Cynllun Datblygu Lleol. Yn dilyn mabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, cafodd amcanion cynaliadwyedd eu hailwerthuso er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r Ddeddf newydd hon yn ogystal ag asesiadau eraill y mae Cyngor Sir y Fflint yn ymgymryd â hwy. Cyflwynwyd Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi ei ddiweddaru (nawr Fframwaith Asesiad o Effaith Integredig) i Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ymgynghoriad yn Awst 2017 ac mae'r Fframwaith Asesiad o Effaith Integredig diwygiedig hwn wedi ei ddefnyddio ar gyfer yr asesiadau canlynol.

Mae elfennau unigol y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl wedi eu hasesu i bennu eu perfformiad cynaliadwyedd ac i ddarparu argymhellion ar gyfer gwelliannau cynaliadwyedd. Mae'r elfennau canlynol wedi eu hasesu:

- Gweledigaeth Ofodol y CDLl; a
- Pholisïau Strategol y CDLl.

Mae proses yr Asesiad o Effaith Integredig yn ailadroddol, gydag adborth rheolaidd yn digwydd rhwng gwneuthurwyr y cynllun a'r tîm Asesiad o Effaith Integredig wrth i opsiynau a pholisïau ar gyfer y cynllun gael eu datblygu.

## Materion a Chyfleoedd Allweddol Cynaliadwyedd

I sicrhau bod asesiad cadarn o'r Cynllun Cyflenwi Lleol sy'n cael eu datblygu yn cael ei wneud, mae'n hanfodol deall amodau presennol a nodweddion ardal Sir y Fflint, er enghraifft, deinameg y boblogaeth, lefelau amddifadedd, iechyd, patrymau cyflogaeth a chyflwr stoc dai a'i fforddiadwyedd. Manylir ar y rhain yn Adroddiad yr IIA. Mae'r rhestr isod yn nodi'r pynciau cynaliadwyedd sy'n cael eu trafod yn yr IIA. Mae manylion y materion a'r cyfleoedd a nodwyd yn cael eu darparu yn Adroddiad yr IIA.

- Poblogaeth: pwysau ar y gwasanaethau iechyd, tai preswyl, gwasanaethau ar gyfer y genhedlaeth hŷn, y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a llai o ofal i'r henoed o'r herwydd.
- Addysg a chymwysterau: nifer o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI – ardal ddaearyddol i adrodd yn well ar ystadegau ardaloedd llai yn y Deyrnas Unedig) yn y 10% isaf fel canran o breswylwyr sy'n gweithio gyda Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 4 ac uwch.
- Bioamrywiaeth: effeithiau datblygu ar safleoedd cenedlaethol a rhyngwladol, effeithiau ar rywogaethau o boblogaethau cynyddol, amrywiaeth ar draws y Sir o fynediad preswylwyr at fannau gwyrdd.
- Tirlun a threflun: bregusrwydd trefluniau/ tirluniau gwerthfawr, cymeriad y Sir i ddatblygiadau newydd, er enghraifft.
- Pridd a daeareg: Mae cloddio, mewn gwahanol ddulliau, yn ogystal â diwydiant trwm, wedi gadael eu marc ar ffurf tir halogedig a thir gweddilliol halogedig a'r angen am adferiad. O ganlyniad mae daeareg y Sir yn golygu bod llawer o adnoddau mwynol.
- Dŵr: bygythiad cynyddol o lifogydd dŵr wyneb, llifogydd arfordirol a symudiad difwynwyr yn gysylltiedig â thir halogedig. Canlyniadau posib ar gyfer yr Afon Dyfrdwy ac Aber Afon Dyfrdwy yn gysylltiedig â chyflenwad dŵr ac echdynnu ar gyfer datblygiadau newydd, os yw problemau megis sychder yn cael eu hysgogi.
- Ansawdd Aer a Newid Hinsawdd: gall newid mewn hinsawdd achosi cynnydd mewn digwyddiadau o lifogydd a sychder. Gall datblygiadau newydd mewn ardaloedd megis Glannau Dyfrdwy effeithio ar Aber Afon Dyfrdwy.
- Treftadaeth Ddiwylliannol: risgiau yn gysylltiedig â newid mewn hinsawdd, yn cynnwys digwyddiadau o dywydd eithafol yn peri problemau ar gyfer rheoli a chadw treftadaeth ddiwylliannol. Mae yno hefyd bosibilrwydd o fodolaeth gweddillion archeolegol heb eu darganfod.
- Mwynau a Gwastraff: Lleihad mewn adnoddau mwynol cyfyngedig. Rhaid chwilio am gyfleoedd i ddiogelu asedau mwynol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, bydd hyn hefyd yn cael ei gefnogi drwy echdynnu mwynau'n gynaliadwy.
- Iechyd Dynol: mae lefelau amrywiol o amddifadedd yn digwydd ar draws y Sir, gyda'r llain arfordirol yn benodol yn cael ei heffeithio. Mae pwysau yn gysylltiedig â phoblogaeth gynyddol sy'n heneiddio, anghenion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd a gofal. Mae cyfleoedd am welliannau iechyd, ansawdd bywyd a'r economi drwy ddarpariaeth gofal iechyd a gwasanaethau allweddol.
- Economi leol: Mae pocedi o amddifadedd ar hyd y llain arfordirol, gyda lefelau incwm a chyflogaeth yn eithaf isel i'w cymharu â rhannau mwy gwledig o'r Sir. Mae nifer cynyddol o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith (LCG - budd-dal i'r rheiny sy'n chwilio am waith). Ar hyn o bryd mae dau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Sir y Fflint yn y 10% isaf am amddifadedd cyflogaeth. Mae gostyngiad hefyd wedi bod yng nghyfran preswylwyr Sir y Fflint sy'n economaidd weithgar a fyddai'n gallu arwain at ddiffyg llafur.
- Tai: canran uchel o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% isaf am amddifadedd tai, prinder yn y nifer o dai fforddiadwy, swm cynyddol o Dai Amlbreswyl.
- Amddifadedd ac Amgylchedd Byw: lefelau uchel o amddifadedd a phosibilrwydd am welliannau. Trosedd: amddifadedd mewn perthynas â lefelau trosedd a chyfleoedd posib o fesurau dylunio.

  Cludiant: hygyrchedd a chysylltedd; tagfeydd, cyfleoedd am fwy o ddulliau cynaliadwy o gludiant a chysylltedd gwell, pellteroedd cynyddol cymudwyr. Mae hygyrchedd yn broblem benodol mewn ardaloedd gwledig.

## Fframwaith Asesu ar gyfer yr Asesiad o Effaith Integredig

Mae Fframwaith yr Asesiad o Effaith Integredig yn tanategu ‘r fethodoleg asesu ac yn cynnwys cyfres o amcanion cynaliadwyedd (yn ymdrin â materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) gaiff eu defnyddio i brofi perfformiad y cynllun gaiff ei asesu. Mae Amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig wedi eu datblygu gan ddefnyddio'r adolygiad o gynlluniau perthnasol eraill, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol, y data sylfaenol a'r materion a'r cyfleoedd allweddol. Cafodd Fframwaith yr Asesiad o Effaith Integredig ei ddiwygio ar ôl derbyn ymatebion ymgynghoriad yr Adroddiad Cwmpasu gan ymgyngoreion statudol yn 2015. Mae'r Amcanion IIA canlynol yn ffurfio sail Fframwaith IIA. Caiff y rhain eu cefnogi gan gyfres o is-amcanion, dangosyddion a thargedau, y gellir eu canfod yn Adroddiad yr Asesiad o Effaith Integredig (Tabl 3-5):

1 Gostwng trosedd, anrhefn ac ofn troseddau
2 Gwella lefelau cyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oed a phob sector yn y gymdeithas
3 Gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles i bawb a lleihau anghydraddoldebau iechyd
4 Darparu mynediad i dai fforddiadwy o ansawdd da sy’n cwrdd ag anghenion a gofynion y gymuned
5 Gwella mynediad cynaliadwy i nwyddau, gwasanaethau ac amwynderau sylfaenol i bob grŵp
6 Creu cymunedau cryf a chydlynol
7 Hybu economi gynaliadwy, datblygiad busnes a buddsoddiad
8 Darparu cyfleoedd cyflogaeth ar draws y Sir a hybu cynhwysiant economaidd
9 Cynnal a gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig
10 Amddiffyn a hybu bioamrywiaeth a geoamrywiaeth
11 Gwarchod a hybu nodweddion ac ansawdd tirlun a threflun y Sir
12 Amddiffyn a hybu'r asedau treftadaeth ddiwylliannol
13 Amddiffyn a hybu ansawdd nodweddion dŵr ac adnoddau
14 Lleihau’r perygl o lifogydd
15 Amddiffyn a gwella ansawdd yr aer a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr
16 Cynyddu effeithlonrwydd ynni, gofyn am y defnydd o ynni adnewyddadwy a chynllun adeiladau cynaliadwy
17 Sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol
18 Annog amddiffyn a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

## Datblygu a Mireinio Opsiynau ac Asesu'r Effeithiau:

## Opsiynau Gofodol

Mae canllawiau'r llywodraeth yn cynghori mai dim ond dewisiadau eraill sy'n rhesymol y dylid eu hystyried ac fe ddylent fod yn ddigon gwahanol i alluogi cymhariaeth ystyrlon o’u heffeithiau amgylcheddol gwahanol.

Cafodd Opsiynau Gofodol y CDLl a’r senarios twf eu hasesu ac adroddwyd arnynt yn Hydref 2016.

## Gweledigaeth Ofodol ac Amcanion

Mae canllawiau arfer da yn argymell y dylai prif amcanion ac egwyddorion y cynllun gael eu hasesu yn erbyn Amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig, er mwyn profi eu haddasrwydd ac i benderfynu a ydynt yn cydsynio gydag egwyddorion cynaliadwyedd eang.

Mae’r weledigaeth Ofodol ar gyfer Sir y Fflint wedi ei hadolygu yn erbyn holl Amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig, ac mae crynodeb o’r prif gryfderau, gwendidau ac argymhellion yn cael eu cyflwyno yn Adroddiad yr Asesiad o Effaith Integredig. Mae’r asesiad wedi ei wneud yn ystod yr Asesiad o Effaith Integredig gan ddefnyddio dull syml seiliedig ar fatrics. Mae Pennod 5 Adroddiad yr Asesiad o Effaith Integredig yn cyflwyno addasrwydd cyfan Amcanion y CDLl yn erbyn Amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig.

## Gwerthusiad o Bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol

Aseswyd polisïau’r CDLl yn erbyn Amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig gan ddefnyddio dull seiliedig ar fatrics a dechreuodd gyntaf yn y Gwerthusiad o Opsiynau’r CDLl a aseswyd yn Hydref 2016. Roedd y

matrics hwn yn galluogi adnabod yr effeithiau cadarnhaol a negyddol, yn ogystal â’r potensial i effeithiau cronnus ddigwydd. Awgrymwyd mesurau lliniaru ac argymhellion i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol a ragwelwyd, neu i hybu unrhyw gyfleoedd a nodwyd. Mae’r broses ailadroddol hon wedi parhau i’r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef.

Darperir crynodeb o’r asesiad i'r polisïau hyn a ffefrir ym Mhennod 6 Adroddiad yr Asesiad o Effaith Integredig. Caiff canlyniadau cyflawn yr asesiad eu cyflwyno yn Atodiad D.

I grynhoi, roedd y mwyafrif o’r effeithiau a ragwelwyd yn gadarnhaol yn erbyn yr amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Arweiniodd yr asesiad o’r CDLl at ragweld effeithiau cadarnhaol mawr yn erbyn holl amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig, a bydd y polisïau strategol gaiff eu cynnig ar hyn o bryd yn gosod y cywair yn glir ar gyfer polisïau Sir y Fflint fydd yn cael eu datblygu. Cafodd y polisïau strategol o amgylch graddfa a lleoliad y datblygiad (STR1 a STR2) eu hasesu gyda’i gilydd er mwyn sicrhau fod unrhyw synergedd rhwng y ddau bolisi yn cael eu canfod, a'u gweld fwyaf perthnasol ar yr amcanion yn ymwneud â thai, cyflogaeth a’r economi. Mae STR3 yn darparu 2 safle strategol (Porth y Gogledd a Warren Hall) a fydd yn ffurfio trwch y stoc tai newydd o fewn Sir y Fflint, yn ogystal â darparu gofod cyflogaeth newydd. Bydd adnabod y safleoedd hyn yn helpu i gwrdd ag amryw o amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig yn nhermau tai, yr economi ac amcanion amgylcheddol, er y disgwylir y bydd mwy o fanylion yn sicrhau y gall lliniaru fod yn briodol. Mae STR4, STR5 ac STR6 yn darparu’r cyfeiriad strategol ynglŷn â sut y dylid ystyried dylunio, trafnidiaeth, gwasanaethau o fewn Sir y Fflint ac maent i gyd yn ceisio sicrhau fod daliadau datblygu cynaliadwy yn cael eu cwrdd.

Mae’r polisïau sy'n weddill (STR7-STR16) yn darparu mwy o fanylion ar faterion penodol o bryder i'r Cyngor - yn amrywio o newid yn yr hinsawdd i dwristiaeth i amddiffyn yr amgylchedd a sicrhau mwynau i'r sir, i enwi dim ond rhai. Mae’r polisïau hyn yn ceisio sicrhau, o fewn eu cyfeiriad priodol, fod hoffter Sir y Fflint o dwf economaidd cryf yn cael ei gydbwyso yn erbyn ei rwymedigaethau cymdeithasol ac amgylcheddol. Er bod Sir y Fflint wedi cymryd y dull strategol i sicrhau ei adferiad economaidd a chynllunio ar gyfer cynnal llwyddiannau economaidd yn y dyfodol, mae'r polisïau yn parhau i lwyddo i sicrhau y gellir lliniaru agweddau eraill o ddatblygu cynaliadwy fel pryderon cymdeithasol ac amgylcheddol. Gellir cryfhau rhai polisïau ymhellach ac mae cyfres o argymhellion am newidiadau wedi eu gwneud o fewn yr adroddiad hwn.

Dylai’r Asesiad o Effaith Integredig a gynhaliwyd, ac yr adroddir arno o fewn yr adroddiad hwn, helpu i egluro'r Polisïau a dosbarthiad y safleoedd a fydd y cael eu datblygu wrth i’r CDLl fynd yn ei flaen a darparu gwell ffocws ynglŷn â beth fydd y polisïau yma’n ei olygu i ardaloedd penodol o fewn Sir y Fflint.

## Y Camau Nesaf

Mae Adroddiad yr Asesiad o Effaith Integredig nawr wedi ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl i'r holl fudd-ddeiliaid allweddol (gan gynnwys ymgyngoreion statudol a’r cyhoedd) ar gyfer sylwadau. Bydd ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn ogystal â’r Adroddiad ar yr Asesiad o Effaith Integredig ac atodiadau cysylltiedig. Yn dilyn cau’r cyfnod ymgynghori, bydd Cyngor Sir y Fflint yn adolygu'r adborth ac yn ei ymgorffori i ddogfen y CDLl i’w harchwilio gan y cyhoedd.

Os hoffech wneud sylwadau ar yr Adroddiad hwn ar yr Asesiad o Effaith Integredig, anfonwch eich sylwadau os gwelwch yn dda at:

developmentplans@flintshire.gov.uk
neu

Andrew Farrow
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF

# Talfyriadau

| | |
|---|---|
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| ARhAA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer |
| CGB | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| ASC | Ardoll Seilwaith Cymunedol |
| CS | Cyngor Sir |
| AGAy | Ardal Gadwraeth Arbennig Ymgeisydd |
| AYNH | Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd |
| AEG | Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb |
| RAH | Record Amgylcheddol Hanesyddol |
| AEI | Asesiad o Effaith ar Iechyd |
| ARhC | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| HMO | Tai Amlfeddiannaeth |
| AEI | Asesiad o Effaith Integredig |
| LCG | Lwfans Ceisio Gwaith |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| CNLl | Cronfeydd Natur Lleol |
| AGEHI | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is |
| CNC | Cronfeydd Natur Cenedlaethol |
| CGC | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol |
| SYC | Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol |
| SDBW | Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog |
| AGAb | Ardaloedd Gwrachod Arbennig o Botensial |
| GC | Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| AGA | Ardal Gadwraeth Arbennig |
| HG | Heneb Gofrestredig |
| AAS | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| AMDS | Asesiad Marchnad Dai Strategol |
| AWA | Ardal Warchod Arbennig |
| SDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SDTC | Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy |
| NCT | Nodyn Cyngor Technegol |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| CBAD | Comisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygu |